

CYNLLUN CYLLIDEBOL I

Symud **Cymru** Ymlaen

EIN CYNLLUN CYLLIDEBOL



Mae Llafur Cymru wedi profi sut gall ei enw da yn rheoli cyllidebau yn gyfrifol ddiogelu'r hyn sydd bwysicaf a chyflawni newid sydd nid yn unig yn bosibl, ond yn hanfodol.

Wrth wynebu cyni, rydym wedi cyflawni addewidion 2016 ac yn yr argyfwng hwn, rydym wedi arddangos yr ymagwedd bendant, ofalus sydd ei hangen i gadw Cymru'n ddiogel.

Pe byddai Cymru wedi dilyn ymagwedd llywodraeth y DU tuag at gymorth busnes yn y pandemig hwn, byddai busnesau Cymru mewn sefyllfa llawer gwaeth heddiw. Yn lle hynny, fe wnaethom ail-lunio cyllidebau i roi mwy o gymorth. Mae dros £2bn wedi cefnogi 165,000 o swyddi ac, yn wahanol i Loegr, bydd manwerthwyr, busnesau hamdden a lletygarwch yng Nghymru yn parhau i dderbyn 100% o ryddhad ardrethi am flwyddyn arall.

Tra'n darparu'r cyllid sydd ei angen ar y GIG a'n gwasanaethau cyhoeddus ehangach, arweiniodd Cymru'r ffordd yn rhoi gwerthoedd Cymru yn gyntaf yn yr argyfwng hwn. Cymru gymerodd y cam cyntaf yn ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau, cymorth sydd bellach wedi ei sicrhau hyd at y Pasg 2022.

Rydym wedi dangos sut mae ein gwerthoedd a'n gwerth am arian yn mynd law yn llaw. Mewn gwrthgyferbyniad i'r Torïaid - y mae eu ffrindgarwch wedi golygu bod biliynau wedi cael eu gwastraffu ar gontractau profi ac olrhain a PPE sydd wedi methu - rydym wedi sicrhau canlyniadau gwell gyda gwasanaethau cyhoeddus dibynadwy.

Dim ond Llafur Cymru sydd â chynllun credadwy i *Symud Cymru Ymlaen* yn yr etholiad hwn.

Mae ein cynlluniau uchelgeisiol i gyflawni cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bawb wedi eu costio ac yn barod i'w cyflwyno wrth i ni wynebu ansicrwydd unwaith eto.

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn fforddiadwy, hyd yn oed wrth i Dorïaid y DU fygwth cyni unwaith eto. Nid yw ein cynlluniau gwario yn dibynnu ar unrhyw gynnydd mewn trethi datganoledig, yn cynnwys Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac - yn wahanol i gynigion pleidiau eraill - nid ydynt yn dibynnu ar fympwy Gweinidogion Torïaid y DU. Mae ein hymrwymadau ariannol yn seiliedig ar benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud yng Nghymru, ar gyfer Cymru.

Blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth nesaf Llafur fydd diogelu bywydau a bywoliaeth a dechrau adferiad Cymru.

Ni ellir defnyddio cyllid untro y pandemig i ariannu ymrwymadau gyda goblygiadau amhosibl ar gyfer blynyddoedd i ddod. Ni fydd Llafur Cymru'n gwneud ymrwymadau y gellir ond eu hariannu trwy gynyddu trethi'n sylweddol, gwneud toriadau mawr i wasanaethau presennol neu trwy beryglu ein hymateb rheng flaen i Covid.

Mae ein hymagwedd gyfrifol, wedi ei thargedu yn golygu bod cronfa wrth gefn Covid Llywodraeth Cymru yn barod i sicrhau ein hymateb i'r pandemig (yn cynnwys cyflwyno'r brechlyn), cefnogi busnesau a dechrau buddsoddi mewn adferiad wedi ei arwain gan swyddi. Rydym wedi clustnodi £200 miliwn y gellir ei ddefnyddio'n gyflym gan lywodraeth sydd yn dod i mewn i gefnogi busnesau sydd wedi eu heffeithio gan gyfyngiadau parhaus Covid.

Bydd sylfeini cadarn ymagwedd Llafur Cymru yn ein galluogi i gyflwyno *Symud Cymru Ymlaen* yn hyderus.

ARIANNU EIN 6 ADDEWID PENNAF



ADFERIAD AR ÔL COVID:

Y rhaglen dal i fyny fwyaf yn ein GIG a'n hysgolion ac ysgol feddygol newydd ar gyfer Gogledd Cymru

- £1bn - £1.2bn ar gyfer y GIG a Chynllun Adferiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod tymor y Senedd.
- Ym mhob blwyddyn, mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi gwario mwy ar wasanaethau craidd y GIG a gwasanaethau cymdeithasol y pen o'i chymharu â Lloegr. Bydd Llywodraeth Lafur nesaf Cymru yn parhau i wneud hynny.
- Mae'r ymrwymiad hwn yn ein galluogi i gynyddu cyllid hyfforddiant y GIG o 8% i gefnogi'r ysgol feddygol newydd ar gyfer Gogledd Cymru.
- Rydym yn gwario mwy fesul disgybl nag unrhyw genedl arall yn y DU i gefnogi rhaglen dal i fyny ag addysg Cymru. Mae £112m wedi cael ei ymrwymo ar draws 2020-2022. Byddwn ar unwaith yn darparu £33m pellach i ddal i fyny ag addysg bellach, gan gynyddu ein cyllid penodedig i £145m.



GWARANT I BOBL IFANC:

Cynnig o waith, addysg neu hyfforddiant i bawb o dan 25 oed

- Bydd tua £70m y flwyddyn mewn cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar alw uchel yn y blynyddoedd cynnar. Bydd cyllid ychwanegol yn atgferthu sgiliau a rhaglenni hyfforddiant presennol ac yn sicrhau 125,000 o brentisiaethau newydd erbyn 2026.



BARGEN DEG AR GYFER GOFAL:

Y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal

- Tua £40m mewn cyllid ychwanegol sydd ei angen er mwyn sicrhau cyrraedd pob gweithiwr.

Byddwn yn buddsoddi yn y targed hwn eleni, a'i gyrraedd yn llawn erbyn 2024.

- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, darparwyr eraill ac undebau llafur i sicrhau bod cyllid ychwanegol yn cael ei ymrwymo ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol.



GWLAD WYRDDACH:

Diddymu mwy o blastigau untro a chreu Coedwig Cenedlaethol i Gymru

- Mae angen tua £25m (cyfalaf yn bennaf) yn ystod tymor y Senedd. Mae hyn yn fforddiadwy o fewn cyllidebau presennol ac mae yn ogystal â chyllid ehangach ar gyfer creu ac adfer coetir i fodloni targedau hinsawdd.



CYMUNEDAU MWY DIOGEL:

Mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar ein strydoedd

- Cynyddu cyllid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i £22m y flwyddyn. Cyflwyno taliad chwyddo o £3.4m i'r llinell wariant i ariannu 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol yn ystod tymor y Senedd.



SWYDDI NEWYDD I GYMRU:

Creu miloedd o swyddi mewn chwyldro adeiladu tai carbon isel

- Fe wnaethom fuddsoddi £12bn mewn prosiectau y tymor hwn a byddwn yn cyflwyno rhaglen buddsoddiad cyfalaf o £15bn yn ystod tymor nesaf y Senedd.
- Byddwn unwaith eto yn cynllunio i fanteisio i'r eithaf yr yr holl fenthyciadau sydd ar gael ac yn defnyddio cyllid arloesol, yn cynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, i ariannu blaenoriaethau na fydd cyllid y DU yn eu cefnogi.



Y tu hwnt i'r addewidion hyn, rydym yn bwriadu darparu tua £270m mewn cyllid o ddydd i ddydd i gefnogi ymrwymadau newydd eraill yn *Symud Cymru Ymlaen* yn ystod tymor y Senedd. Rydym eisoes wedi creu'r Gronfa Buddsoddi Hyblyg, gan alluogi Banc Datblgu Cymru i ddarparu cyfalaf tymor estynedig i fusnesau Cymru.

Yn yr un modd ag yr oedd ein maniffesto yn gwbl gyraeddadwy yn ystod tymor 2016-21, mae addewidion *Symud Cymru Ymlaen* yn barod i gael eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Lle byddwn yn ennill pwerau pellach neu gyllid sylweddol, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd yn ein maniffesto. Ond mae Llafur Cymru yn glir, ni fyddwn yn gwneud unrhyw ymrwymadau i chi sydd angen eu cymeradwyo gan y Toriaid yn San Steffan.

Llafur Cymru enillodd pwerau treth newydd ar gyfer ein Senedd a thrafod cyllid yn seiliedig ar anghenion ychwanegol ar gyfer Cymru, newid sydd wedi cyflwyno £650m ers 2018. Byddwn yn ymladd i sicrhau bod Cymru'n cael cyfran haeddiannol o gyllid y DU ac yn pwysu am ddiwygiadau sydd yn cyflwyno cyllid teg am byth mewn DU ffederal, ddiwygiedig.

Mark Drakeford

REBECCA EVANS

MARK DRAKEFORD

REBECCA EVANS

